


WALLACE, ALFRED RUSSEL (1823-1913), naturiaethwr a hyrwyddwr diwygiadau cymdeithasol



Enw: Alfred Russel Wallace

Dyddiad geni: 1823

Dyddiad marw: 1913

Priod: Annie Wallace (née Mitten)

Rhiant: Thomas Vere Wallace

Rhiant: Mary Anne Wallace (née Greenell)

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: naturiaethwr a hyrwyddwr diwygiadau cymdeithasol

Maes gweithgaredd: Natur ac Amaethyddiaeth; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Gwyddoniaeth a Mathemateg

Awdur: Richard Elwyn Hughes

Ganwyd 8 Ionawr 1823, Kensington Cottage, Bryn Buga, Gwent yn fab i Thomas Vere Wallace a Mary Anne (Greenell). Bu'n byw ym Mryn Buga am ryw dair blynedd cyn i'r teulu ymadael am Loegr. Cafodd beth ysgol yn Hertford ond gadawodd pan oedd yn 13 oed a symud at ei frawd John yn Llundain. Aeth wedyn i gynorthwyo ei frawd arall, William, gyda'r bwriad o ymgymhwyso'n dirfesurydd. Erbyn 1839 roedd y gwaith trefsurol wedi mynd â'r ddau frawd i Faesyfed. Tra bu yno lluniodd Wallace ei ysgrif gyntaf - 'On the best method of conducting the Kington Mechanics' Institution' a gyhoeddwyd wedyn yn *History of Kington* (Richard Parry, 1845). Bu'r ddau frawd yn gweithio yn ardal Rhaeadr cyn symud am gyfnod byr i Frycheiniog ac wedi hynny, yn 1841, i Gastell-nedd ym Morgannwg. Dechreuodd Wallace ddysgu Cymraeg, gan fynychu gwasanaethau yn y capeli lleol a phob amser yn lletya gyda theuluoedd Cymraeg eu haith.

Yn ystod ei gyfnod yng Nghastell-nedd dechreuodd Wallace ymddiddori o ddirif ym byd natur. Dechreuodd astudio botaneg, fe'i penodwyd yn gyd-guradur yr amgueddfa leol, a phan ffurfiwyd Sefydliad Mecanegwyr yn y dref yn 1843, ymgymrodd Wallace â thraddodi yno ddarlithiau ar ffiseg elfennol. Mynychai gyfarfodydd yn Sefydliad Brenhinol Abertawe hefyd lle bu grwpiau trafod yn ymddrin â phynciau megis *The vestiges of creation* Robert Chambers. Roedd ei gyfnod yng Nghastell-nedd yn ffurfiadol-bwysig yn natblygiad Wallace fel naturiaethwr ac yn 1847 cyhoeddodd yn y *Zoologist* ei 'bapur' gwyddonol cyntaf - nodyn i'r perwyl ei fod wedi dod o hyd i sbesimen o chwilen brin yn ardal Castell-nedd.

Yn 1848 cychwynnodd ar daith i Dde America a'i gyfaill o gyd-naturiaethwr, Henry Walter Bates, yn gydymaith iddo. Ffrwyth ei gyfnod o bedair blynedd yno oedd *Palm Trees of the Amazon and their uses* (1853) - erbyn heddiw ei lyfr prinnaf o dipyn - ac *A narrative of travels on the Amazon and Rio Negro* (1853). Rhwng 1854 a 1862 bu yn Dwyrain Pell, yn Archipelago Maleia a thra bu yno lluniodd ei ddamcaniaeth esblygiad, yn gyfamserol ag eiddo Charles Darwin ond yn annibynnol arni. I sicrhau na fyddai Darwin yn dod yn ail yn y 'ras' esblygiadol, trefnodd dau o'i gyfaillion (Hooker a Lyell) i'r ddau fersiwn o'r ddamcaniaeth gael eu cyflwyno yn yr un cyfarfod o'r Gymdeithas Lineaidd ar Orffennaf 1af 1858.

Cyfraniad mawr arall Wallace oedd ei waith biddaearyddol a grynhowyd yn ei ddau lyfr *The geographical distribution of animals* (1876) ac *Island life* (1880). Sonir amdano weithiau fel 'Tad Biddaearyddiaeth' ac er teyrnged iddo yn y maes hwn fe gyfeirir o hyd at 'Wallace Line' yn nwyrain Asia - y llinell ddychmygol a ddynodwyd gan Wallace i wahaniaethu rhwng rhywogaethau 'Awstralaidd' a rhai 'Asiaidd'.

Yn ail hanner ei oes tueddai diddordebau Wallace mewn materion cymdeithasol ac arallfydol i ddisodli ei naturiaetheg. Er syndod i'w gyd-wyddonwyr bu'n ymhel â nifer o weithgareddau a oedd yn annerbyniol, os nad yn wrthun, yng ngolwg gwyddoniaeth sefydliadol ei gyfnod - sosialaeth, ffrenoleg, ysbrydegaeth, gwrth-fuchfrechiad (antivaccination), heddychaeth ac eraill. Y wedd amlycaf ar ei sosialaeth oedd ei gefnogaeth i'r gymdeithas gwladoli'r tir y bu'n llywydd arno am gyfnod. At hyn oll daeth Wallace i greu fod rhyw 'Law Guddiedig' y tu ôl i'r broses esblygiadol, cred a achosodd beth anghytundeb rhyngddo a Darwin.

Yn ysgrifennwr proffig, bu'n awdur 22 o lyfrau ynghyd â thros 700 o gyhoeddiadau eraill yn y wasg gyfnodol a dyddiol. Er ei holl gampweithiau ni lwyddodd Wallace ar hyd ei oes i fachu unrhyw swydd o werth. Bu raid iddo ddiybnyu am incwm ar weithgareddau megis gwerthu sbesimenau, darlithio a marcio papurau arholiad. Ar hyd ei oes bu gan Darwin gryn barch at alluoedd Wallace fel naturiaethwr ac ef fu'n bennaf gyfrifol am ddwyn perswad ar y Llywodraeth i ddyfarnu pensiwn bach i Wallace. Tebyg mai ei ymneud â chynifer o fudiadau a chredoau anuniongred fu un o'r rhesymau paham na chafodd Wallace ei ethol yn FRS tan 1893. Ond nid oedd anrhydeddau o'r fath yn golygu ryw lawer iddo ac o 1889 ymlaen (pan ddyfarnwyd gradd DCL Rhydychen iddo - cawsai LID Lerpwl yn 1882), gwrthododd dderbyn unrhyw gydabyddiaeth gan brifysgolion - gan gynnwys cynnig o radd er anrhydedd gan Brifysgol Cymru. Ond derbyniodd amryw fedalau gan gymdeithasau dysgedig rhwng 1868 a 1908 a bodlonodd dderbyn yr OM yn 1910; ei sylw ar y pryd oedd mai peth rhyfedd ac anaealladwy oedd gweld 'y fath radical penboeth, gwladolwr tir, sosialydd a gwrth-filitarydd' yn derbyn anrhydedd o'r fath.

Yn ei hunangofiant (*My life*), a gyhoeddwyd gyntaf yn 1905, rhoes Wallace gryn bwyslais ar ei gyfnod cynnar yng Nghymru. Bu'n canmol rhinweddau'r diwylliant Cymraeg, gan ddyfynnu talpiau o'r *Beibl* Cymraeg; datganodd ei gefnogaeth i hunanlywodraeth i Gymru ac yr oedd o'r farn y dylid dysgu gwyddoniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Ychydig wythnosau cyn ei farw, ac yntau mewn cyflwr o gryn lesgedd, bu'n llythyr â theulu Bryn Coch, Castell-nedd (y fferm lle bu'n lletya saith deg o flynyddoedd ynghynt) gyda chais am samplau o'r bwydd traddodiadol Cymreig (sucan blawd a bara maen) yn y gobaith y byddent yn ei adfer i'w iechyd arferol.

Priododd yn 1866 ag Annie Mitten, merch ifanc ei gyfaill William Mitten y mwsoglegwr; bu iddynt dri o blant. Bu farw ar 7 Tachwedd 1913 yn Broadstone, swydd Dorset. Cyfeiriodd y cylchgrawn gwyddonol *Nature* at 'farwolaeth un o fiolegwyr enwocaf y ganrif' - dyfarniad y byddai barn heddiw yn ei gadarnhau yn llwyr. Fe'i claddwyd ym mynwent Broadstone yn hytrach nag yn Abaty Westminster a hyn, yn ôl ei wedd, yn unol â dymuniadau Wallace ei hunan.

Awdur

Ffynonellau

Alfred Russel Wallace, *My life a record of events and opinions* (London 1905), Vol.I, Vol.II
Wilma George, *Biologist philosopher* â€¦ Alfred Russel Wallace (London 1964)
R. Elwyn Hughes, *Alfred Russel Wallace gwyddonydd anwyddonol* (Caerdydd 1997)
R. Elwyn Hughes, Alfred Russel Wallace: some notes on the Welsh connection, *British Journal for the History of Science*, cyfrol 22 (401-18), 1989
Charles H. Smith, *Alfred Russell Wallace an anthology of his shorter writings* (Oxford 1991)
Llythyrâu llawysgrif, Llyfrgell Brydeinig; Llyfrgell y Gymdeithas Linneaid
Charles H. Smith, cofnod yn *Oxford Dictionary of National Biography*
H.Lewis McKinney, cofnod yn *Dictionary of Scientific Biography* (New York 1976)

Darllen Pellach

Ted Benton, *Alfred Russel Wallace* (Manchester 2013)
The Alfred Russel Wallace Correspondence Project
NHM: Wallace Letters Online
Darwin Correspondence Project: Alfred Russel Wallace
Erthygl Wicipedia: Alfred Russel Wallace

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 19767134
Wikidata:

Dyddiad cyhoeddi: 2008-07-30

Hawffraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Trannu

Arddull APA

x

Hughes, R. E., (2008). WALLACE, ALFRED RUSSEL (1823-1913), naturiaethwr a hyrwyddwr diwygiadau cymdeithasol. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 4 Hyd 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c6-WALL-RUS-1823>

Cyswllt

Prefatrwydd a Chwci
Hawffraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION



